Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2014

# Ymddiriedolaeth GIG Felindre

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 712A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a fu'n gyfrifol am baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Matthew Coe, David Thomas, Tracy Veale, Elaine Matthews a Gillian Gillett.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Yr adroddiad hwn | 7 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 8 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 10 |
| Mae rheolaeth ariannol gadarn wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2013-14, ond mae rhai sialensiau ariannol penodol yng Nghanolfan Ganser Felindre y mae angen eu hystyried eto | 11 |
| Er bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol a bod yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar Gynllun Tymor-Canolig Integredig, mae cyfleoedd i wneud y wybodaeth sy'n cael ei darparu i bwyllgorau yn fwy manwl, a'i chyd-drefnu'n well, i hybu gwell craffu a herio a chynnal trosolwg | 13 |
| Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau, fel bod modd cyflawni newidiadau ar raddfa fwy | 15 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers f'Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 19 |
| Ffi archwilio | 20 |
| Risgiau archwilio arwyddocaol | 21 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2014.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o safbwynt archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 Rhagfyr 2014. Wedyn caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Anogwn Fwrdd yr Ymddiriedolaeth i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
5. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

6. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater. Roedd a wnelo'r rhain â chamddatganiad heb ei gywiro yn ymwneud ag atebolrwydd am esgeulustod meddygol ac ansawdd papurau gwaith.
7. Deuthum i'r casgliadau canlynol hefyd:
   - paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
   - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol a'u gweithredu yn ôl y bwriad.
8. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2013-14. Ceir rhagor o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn Adran 1 o'r Adroddiad Manwl.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**9.** Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth a digonolrwydd ei threfniadau llywodraethu, gan gynnwys cynllunio'n effeithiol a mesur pa gynnydd a wnaed o ran llywodraethu ansawdd a threfniadau ers y llynedd. Rwyf hefyd wedi adolygu'r trefniadau i gefnogi defnydd da o adnoddau fel rhan o waith yr Asesiad Strwythuredig – mae'r trefniadau hynny'n adlewyrchu canlyniadau archwiliadau perfformiad ar nifer o feysydd darparu gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at y casgliadau canlynol:

### Mae rheolaeth ariannol gadarn wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2013-14, ond mae rhai sialensiau ariannol penodol yng Nghanolfan Ganser Felindre y mae angen eu hystyried eto

**10.** Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Stwythuredig wedi dangos bod trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli'i harian o fewn y flwyddyn ariannol yn gadarn. Datblygwyd cynlluniau arbed arian yn gynnar ac erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2013-14 roedd gan yr Ymddiriedolaeth warged bach.

**11.** Bydd y rhagolygon ariannol yn ei gwneud yn anoddach i'r Ymddiriedolaeth gyrraedd ei thargedau arbed arian yn 2014-15 yn enwedig yng Nghanolfan Ganser Felindre. Hefyd, rhaid i'r Ymddiriedolaeth barhau i ganolbwyntio ar sicrhau cydbwysedd priodol rhwng arbedion cylchol ac arbedion anghylchol a rhaid iddi sicrhau ei bod yn parhau i fonitro'n ofalus bod yr arbedion sydd wedi'u cynllunio yn y gwahanol Adrannau yn cael eu gwireddu.

### Er bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol a bod yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar Gynllun Tymor-Canolig Integredig, mae cyfleoedd i wneud y wybodaeth sy'n cael ei darparu i bwyllgorau yn fwy manwl, a'i chyd-drefnu'n well, i hybu gwell craffu a herio a chynnal trosolwg

**12.** Mae'r arweinyddiaeth strategol, yr atebolrwydd a'r dirprwyo yn gryf gyda gweledigaeth glir a Chynllun Tymor-Canolig Integredig y cytunwyd arno, ond gellid gwella'r broses o fonitro perfformiad yn erbyn y cynllun yn ystod y flwyddyn.

**13.** Mae'r uwch dîm, sydd wedi'i gryfhau, a'r llinellau atebolrwydd cliriach yn cynnal llywodraethu corfforaethol da ac yn fodd i gyflawni amcanion strategol y sefydliad. Bydd gwaith pellach i ddatblygu'r sefydliad yn rhoi'r Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa gref i fwrw ymlaen yn gyflymach i wneud newidiadau.

**14.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i gefnogi Bwrdd effeithiol a mesurau rheoli mewnol, er bod rhywfaint o le i wella i sicrhau mwy o gysondeb yn y wybodaeth reoli er mwyn helpu gyda'r gwaith craffu a gwneud penderfyniadau.

15. Mae'r Ymddiriedolaeth yn perfformio'n dda yn ei mesurau allweddol, gydag unrhyw feysydd lle ceir tanberfformio yn cael eu nodi a chamau'n cael eu cymryd yn gyflym i fynd i'r afael â'r pryderon. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn darparu sicrwydd a gellid manteisio ar ddata ar lefel gwasanaethau i wella'r wybodaeth fusnes a gyrru perfformiad.

16. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i lywodraethu gwybodaeth.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau, fel bod modd cyflawni newidiadau ar raddfa fwy

17. Mae f'Asesiad Strwythuredig a gwaith archwilio lleol wedi adolygu sut mae nifer o elfennau allweddol sy'n galluogi defnyddio adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus yn cael eu rheoli. Mae'r gwaith hwn wedi dangos:
    - bod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau'r ffordd y mae'n rheoli ac yn gwireddu newid ar raddfa fwy tra mae newidiadau pellach ar waith mewn meysydd adnoddau allweddol i helpu i gyflawni'r Cynllun Tymor-Canolig Integredig;
    - mae codio clinigol wedi cael ei gwblhau'n brydlon yn y gorffennol, ond mae amryw o wendidau yn y trefniadau a'r broses yn effeithio ar gywirdeb y data clinigol wedi'i godio ac mae adnoddau cyfyngedig yn golygu bod episodau sydd heb eu codio yn cronni bellach ac ar gynnydd;
    - mae gan Wasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre drefniadau digonol ar gyfer parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb TGCh, er bod angen goruchwylio a chyd-drefnu'r trefniadau profi ac adrodd yn well ar lefel yr Ymddiriedolaeth;
    - mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi sylw i argymhellion sydd wedi deillio o waith archwilio blaenorol.

18. Hoffem ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**19.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Tachwedd 2014.

**20.** Cyflawnir fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu;
- **c)** bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

**21.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a archwiliodd y trefniadau rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**22.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**23.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: Archwilio cyfrifon
- Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**24.** Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

**25.** Yn olaf, mae Atodiad 3 yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y gwaith cyfrifon ariannol a amlygwyd yn fy Amlinelliad Archwilio Blynyddol ar gyfer 2014 a sut yr aed i'r afael â hwy yn ystod yr archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**26.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau f'archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2013-14. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei warged neu ddiffyg, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifoedd arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

**27.** Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**28.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**29.** Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol yr Ymddiriedolaeth;
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater

### Paratowyd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**30.** Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei datganiadau ariannol drafft erbyn dyddiad terfyn Llywodraeth Cymru, sef 2 Mai, a chyflwynwyd y datganiadau cyfunol (sy'n cynnwys cyfrifon y Cronfeydd Elusennol) ar 19 Mai. Canfûm fod y wybodaeth a ddarparwyd yn gefn i'r datganiadau ariannol yn berthnasol a dibynadwy a bod y gwelliannau a wnaed gan yr adran gyllid i'r broses paratoi cyfrifon wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y datganiadau ariannol drafft a'r papurau gwaith ategol.

**31.** Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn imi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd f'Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 3 Mehefin 2014. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiad heb ei gywiro | Roedd yr atebolrwydd yng nghyswllt dau achos setlo strwythuredig wedi cael ei gyfrifo'n anghywir, felly roedd y taliadau masnachol ac eraill a oedd yn daladwy wedi cael eu dangos £251,000 yn rhy isel. Nid oedd hyn yn effeithio ar y sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn oherwydd byddai unrhyw newid wedi cael ei wrthbwyso gan arian o werth cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. |
| Ansawdd papurau gwaith | Roedd ansawdd y papurau gwaith ategol wedi gwella'n sylweddol ond mae lle o hyd i wella ymhellach a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r staff Cyllid i nodi cyfleoedd i wneud hynny. |

**32.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan – deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2014, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys;
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol – deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**33.** Mae f'archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol hefyd wedi'i gwblhau a chyflwynwyd y materion yn codi o'r gwaith mewn adroddiad i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ar 26 Tachwedd 2014. Rwyf yn bwriadu cyhoeddi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14 ar y cronfeydd elusennol.

## Roedd gan yr Ymddiriedolaeth amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

**34.** Adolygais amgylchedd rheoli mewnol yr Ymddiriedolaeth dros y prif systemau rheolaeth gyfrifyddu a chyllidebu, y seilwaith TG lleol a gwaith yr Archwilwyr Mewnol.

**35.** Cafwyd gennyf fod y mesurau rheoli'n gweithio mor effeithiol ag y bwriadwyd ac felly roedd modd dibynnu arnynt wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

36. Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – y Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd sy'n darparu swyddogaeth Archwilio Fewnol yr Ymddiriedolaeth. Daeth f'adolygiad i o'r Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd i'r casgliad ei fod yn bwriadu darparu gwasanaeth archwilio mewnol i Gymru gyfan sy'n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

37. Mae'r gwaith a wnaed gennyf yn cefnogi fy marn ar y datganiadau ariannol ac nid yw'n asesiad o'r trefniadau archwilio mewnol o dan y Safonau. O dan PSIAS (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013), mae'n ofynnol i sefydliadau gynnal asesiad allanol o'u trefniadau archwilio mewnol bob pum mlynedd. Mae'r asesiad hwn yn ehangach na'r gwaith y mae archwilwyr allanol yn ei wneud er mwyn dibynnu ar waith archwilio mewnol neu gael sicrwydd o'r gwaith hwnnw.

### Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rheoli'n briodol a'u gweithredu yn ôl y bwriad

38. Ni nodais unrhyw wendidau sylweddol yn systemau ariannol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nodwyd rhai mân-feysydd i'w gwella yn ystod yr archwiliad a gwnaed argymhellion i'r rheolwyr er mwyn mynd i'r afael â'r rhain a chytunwyd ar gamau gweithredu priodol.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

39. Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig;
- defnydd penodol o waith adnoddau ar godio clinigol ac adolygiadau archwilio lleol o waith adfer ar ôl trychineb TGCh a threfniadau parhad busnes;
- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth i dracio argymhellion archwiliadau allanol.

40. Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae rheolaeth ariannol gadarn wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2013-14, ond mae rhai sialensiau ariannol penodol yng Nghanolfan Ganser Felindre y mae angen eu hystyried eto

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn i reoli'i harian o fewn blwyddyn. Datblygwyd cynlluniau arbed arian yn gynnar ac erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2013-14 roedd gan yr Ymddiriedolaeth warged bach

**41.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefn gadarn i ymdrin â rheolaeth ariannol o fewn y flwyddyn a chyrhaeddodd ei thargedau cyllidol am y flwyddyn. Adroddodd yr Ymddiriedolaeth warged o £57,000 a brocerwyd £450,000 yn ôl i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2013-14.

**42.** Gosodwyd cyllideb ar ddechrau'r flwyddyn a nodwyd bwlch cyllido o £3.2 miliwn. Sefydlwyd cynlluniau gwella costau i wneud iawn am hynny. Roeddent yn cynnwys 69 y cant o arbedion cylchol. Drwyddi draw, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth 94 y cant o'i harbedion er bod hynny drwy i rai cynlluniau orgyflawni a bod eraill wedi tangyflawni.

**43.** Ar ddiwedd 2013-14, roedd Canolfan Ganser Felindre wedi cyflawni 92 y cant o'i targed arbedion o £2.3 miliwn, a chafodd y gwaith hwnnw ei fonitro'n ofalus gydol y flwyddyn. Mae Canolfan Ganser Felindre yn dal i wynebu sialensiau ariannol sylweddol wrth symud ymlaen oherwydd y pwysau galw y mae'n eu hwynebu, ac mae'n anodd canfod arbedion cylchol y mae modd eu gwireddu. Serch hynny, gwnaed cynnydd sylweddol dros y tair blynedd diwethaf.

### Bydd y rhagolygon ariannol yn ei gwneud yn anoddach i'r Ymddiriedolaeth gyrraedd ei thargedau arbed arian yn 2014-15 yn enwedig yng Nghanolfan Ganser Felindre. Hefyd, rhaid i'r Ymddiriedolaeth barhau i ganolbwyntio ar sicrhau cydbwysedd priodol rhwng arbedion cylchol ac arbedion anghylchol a rhaid iddi sicrhau ei bod yn parhau i fonitro'n ofalus bod yr arbedion sydd wedi'u cynllunio yn y gwahanol Adrannau yn cael eu cyflawni

**44.** Mae'n ofynnol i ymddiriedolaethau GIG lunio Cynllun Tymor-Canolig Integredig, sy'n adlewyrchu amcanion cynllunio a chyflawni tymor hwy er mwyn darparu gwasanaethau safonol, cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y cleifion. Mae'r Cynllun Tymor-Canolig Integredig yn gynllun treigl tair blynedd sy'n canolbwyntio ar gynllunio gwasanaethau, y gweithlu a phenderfyniadau ariannol. Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a chael eu cymeradwyo ganddi cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y byddant yn cael eu gweithredu ynddi.

**45.** Mae Cynllun Tymor-Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a Llywodraeth Cymru, yn realistig ac yn mantoli'n ariannol. Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun, nodwyd bwlch cyllido o £3.4 miliwn yr oedd angen dynodi arbedion er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn mantoli ar 31 Mawrth 2015.

**46.** Cafodd cynlluniau ariannol yr Ymddiriedolaeth eu datblygu er mwyn gwireddu blaenoriaethau strategol, lefelau ansawdd a chanlyniadau, a mantoli ariannol. Craffwyd ar y cynlluniau ar bob lefel, ac maent yn cydnabod pwysau costau o ran costau lleol/datblygiadau gwasanaeth, moderneiddio gwasanaethau, y galw am wasanaethau a datblygiadau technolegol.

**47.** Dibynnir rhywfaint o hyd ar arbedion anghylchol ac arbedion oportiwnistaidd o ganlyniad i drosiant staff. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol na all ddibynnu ar arbedion o'r fath o flwyddyn i flwyddyn a bod angen cario arbedion felly drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn gwneud maint yr arbedion sy'n ofynnol yn y blynyddoedd i ddod yn fwy na phe bai'r arbedion yn cael eu gwneud ar sail gylchol. Ym mis chwech, mae arbedion anghylchol yn cynrychioli 38 y cant o'r cyfanswm arbedion sy'n ofynnol o'i gymharu â 31 y cant ddiwedd 2013-14, wrth ystyried y ffactor rheoli swyddi gwag fel cyfle cylchol. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod ganddi gydbwysedd priodol o gynlluniau arbed arian cylchol ac anghylchol a rhaid iddi sicrhau ei bod yn parhau i fonitro ar lefel Adrannol bod yr arbedion sydd wedi'u cynllunio yn cael eu cyflawni.

**48.** Er bod yr Adran Gorfforaethol a Gwasanaeth Gwaed Cymru yn rhagweld ar ddiwedd mis chwech y byddant yn cyflawni'u cynlluniau arbed arian ac yn tanwario ar ddiwedd y flwyddyn, nid yw hynny'n wir am Ganolfan Ganser Felindre. Mae asesiadau risg £600,000 o'r cynlluniau arbed arian hyn sy'n ystyried pa mor debygol ydynt o gael eu cyflawni wedi cael eu hailasesu'n 'goch'. Mae Uwch Dîm Rheoli Canolfan Ganser Felindre yn gweithio ar hyn o bryd i nodi arbedion pellach o fewn y flwyddyn i sicrhau y caiff y gofynion arbed arian llawn eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gallai gweithio gyda rhanddeiliaid allanol ddarparu cyfleoedd pellach i wneud arbedion ar drefniadau partneriaeth.

**49.** Mae'r galw cynyddol am wasanaethau a datblygiadau technegol ym maes triniaethau canser wedi cael eu cydnabod fel her gyson i'r Ymddiriedolaeth yn y tymor canolig ond mae cyrchu at gyfalaf ac adnoddau ariannol digonol i ymdopi â'r pwysau hyn wedi'i nodi fel risg allweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymateb hefyd i newidiadau mawr yn y gwasanaeth a'r her o drawsnewid gwasanaethau canser, ynghyd â datblygu campws canser newydd a chreu gwasanaeth gwaed i Gymru gyfan.

**50.** Er fy mod yn cydnabod bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwella'i phroses i adolygu a herio cynlluniau arbed arian sydd wedi'u nodi, a bod Uwch Dîm Rheoli'r Cyfarwyddiaethau, y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad a'r Bwrdd wedi ymroi i hynny, mae lle i'r Aelodau Annibynnol graffu a herio'n ddyfnach eto yn ystod y flwyddyn i fonitro bod cynlluniau arbed arian sydd wedi'u cynllunio yn cael eu cyflawni.

**51.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn o hyd i fonitro'i sefyllfa ariannol. Caiff cynlluniau cyflawni'r adrannau eu monitro'n fisol drwy fframwaith rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth ac adroddir ar hynny i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru mewn modd cyson a thryloyw. Hyd yn oed os oes llithriant mewn rhai cynlluniau arbed arian, oherwydd tanwariant mewn meysydd arall cafodd gwarged o £100,000 drwyddo draw ei nodi gan yr Ymddiriedolaeth ym mis chwech ac mae'n rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn.

## Er bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol a bod yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar Gynllun Tymor-Canolig Integredig, mae cyfleoedd i wneud y wybodaeth sy'n cael ei darparu i bwyllgorau yn fwy manwl, a'i chyd-drefnu'n well, i hybu gwell craffu a herio a chynnal trosolwg

**52.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau ynglŷn â llywodraethu a gwaith sicrwydd y bwrdd, ac fe'i cyflwynir o dan y themâu canlynol:

- cynllunio strategol;
- strwythur sefydliadol;
- gwaith sicrwydd y bwrdd a mesurau rheoli mewnol;
- rheoli perfformiad;
- llywodraethu gwybodaeth.

### Mae'r arweinyddiaeth strategol, yr atebolrwydd a'r dirprwyo yn gryf gydag gweledigaeth glir a Chynllun Tymor-Canolig Integredig y cytunwyd arno, ond gellid gwella'r broses o fonitro perfformiad yn erbyn y cynllun yn ystod y flwyddyn

**53.** Lluniodd yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor-Canolig Integredig o dan arweiniad clinigol, gan roi llais cryf i bwyllgorau. Cytunodd Llywodraeth Cymru i'r cynllun. Mae'r Cynllun Tymor-Canolig Integredig yn ymateb i faterion lleol a chenedlaethol, a materion rhanddeiliaid.

**54.** Fodd bynnag, ni roddwyd digon o sylw i faterion gweithlu a gallai fod gwell cysylltiadau rhwng amcanion cyfalaf, refeniw, adnoddau a gwella yn y cynllun.

**55.** Mae lle i wella'r cysylltiad rhwng y strategaeth a'r elfennau yn y Cynllun Tymor-Canolig Integredig ymhellach i osgoi unrhyw raniadau dianghenraid rhwng Canolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru.

**56.** Tra mae'r cynlluniau gweithredu manwl o ran y Cynllun Tymor-Canolig Integredig yn cael eu monitro ar lefel adrannol, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gallai fonitro perfformiad yn erbyn y cynllun o fewn blwyddyn, ar lefel gorfforaethol, yn well.

### Mae'r uwch dîm, sydd wedi'i gryfhau, a'r llinellau atebolrwydd cliriach yn cynnal llywodraethu corfforaethol da ac yn fodd i gyflawni amcanion strategol y sefydliad. Bydd gwaith pellach i ddatblygu'r sefydliad yn rhoi'r Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa gref i fwrw ymlaen yn gyflymach i wneud newidiadau

**57.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth uwch dîm rheoli effeithiol, gyda llinellau atebolrwydd clir a ffocws da ar wasanaethau effeithiol a diogel. Mae cyfyngiadau capasiti ar lefel uwch yn golygu bod staff yn aml yn gorfod cyfuno rolau strategol uwch gyda rheoli gweithredol ymarferol. Er ei bod wedi cymryd amser i lenwi bylchau, yn sgil penodi Cyfarwyddwyr Cynorthwyol yn ddiweddar mae'r uwch dîm rheoli yn agos at fod yn gyflawn erbyn hyn.

**58.** Mae swyddogaeth gyfathrebu'r Ymddiriedolaeth yn cael ei harwain o'r canol erbyn hyn a'i chefnogi gan rwydwaith o staff adrannol. Mae cyfleoedd i gysylltu'r gwaith yn agosach â phrosesau busnes eraill ar draws yr Ymddiriedolaeth, megis rheoli gwybodaeth a thechnoleg, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar draws yr Ymddiriedolaeth. Byddai strategaeth ddatblygu sefydliadol wedi'i chynllunio sy'n cefnogi nod o'r fath yn fanteisiol.

## Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i gefnogi Bwrdd effeithiol a mesurau rheoli mewnol, er bod rhywfaint o le i wella i sicrhau mwy o gysondeb yn y wybodaeth reoli er mwyn helpu gyda'r gwaith craffu a gwneud penderfyniadau

**59.** Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gadeirydd cryf a chymysgedd da o Aelodau Annibynnol sydd â rolau a chyfrifoldebau clir yn ogystal â gwybodaeth dda o'u meysydd portffolio. Mae'r Aelodau Annibynnol yn cynnal deialog rheolaidd â'r Aelodau Gweithredol er mwyn herio y tu hwnt i'r pwyllgorau. Mae sesiynau datblygu'r Bwrdd yn dal i hybu gwell craffu a herio cyson ar draws holl feysydd y busnes.

**60.** Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn darparu disgrifiad realistig o drefniadau llywodraethu, asesu risg a rheoli mewnol yr Ymddiriedolaeth, ac yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau hyn yn gweithredu'n effeithiol.

**61.** Mae gan bwyllgorau gylch gorchwyl clir, gyda chynllun dirprwyo effeithiol y mae'r aelodau yn ei ddeall. Mae'r wybodaeth reoli sy'n cael ei darparu i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau wedi gwella ond nid yw bob amser yn cael ei darparu i amserlen gyson ganfod fod cylch adrodd pob pwyllgor yn wahanol. Mae angen mireinio pellach i egluro pa bwyllgor sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am bob un o'r dangosyddion perfformiad, gan fod nifer fach ohonynt yn cael eu monitro gan fwy nag un pwyllgor.

**62.** Mae yna strwythurau clir i amlygu, diweddaru ac uwchgyfeirio risgiau gweithredol a chlinigol i fyny o'r cofrestri risg Adrannol. Mae tystiolaeth dda fod y staff yn gyfforddus ynglŷn ag amlygu risg, cwblhau asesiadau risg, uwchgyfeirio fel sy'n ofynnol a gweithredu fel sy'n berthnasol. Caiff y trefniadau rheoli risg eu cryfhau ymhellach wrth i strategaeth rheoli risg yr Ymddiriedolaeth gael ei chwblhau.

**63.** Fel rhan o'm hymrwymiad i helpu i sicrhau a dangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed fel rhan o'n rhaglen, leol a than fandad cenedlaethol, o waith archwilio yn ystod 2012, 2013 a 2014.

**64.** Mae'r gwaith hwn wedi canfod bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i dracio argymhellion archwilio mewnol ac allanol ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu cynnydd ym mhob un o'i gyfarfodydd.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn perfformio'n dda yn ei mesurau allweddol gydag unrhyw feysydd lle ceir tanberfformio yn cael eu nodi a chamau'n cael eu cymryd yn gyflym i fynd i'r afael â'r pryderon. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn darparu sicrwydd a gellid manteisio ar ddata ar lefel gwasanaethau i wella'r wybodaeth fusnes a gyrru perfformiad

**65.** Yn gyffredinol mae'r Ymddiriedolaeth yn perfformio'n dda yn ei mesurau allweddol, gyda meysydd lle ceir tanberfformio yn cael eu nodi a chamau'n cael eu cymryd yn gyflym i fynd i'r afael â'r pryderon.

**66.** Mae'r trefniadau i fonitro ac adolygu perfformiad yn ddigonol ac maent wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf er y gallai'r Ymddiriedolaeth wneud mwy i fanteisio ar ddata ar lefel gwasanaethau i yrru perfformiad a darparu gwybodaeth fusnes.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i lywodraethu gwybodaeth

**67.** Mae cyfrifoldebau llywodraethu gwybodaeth clir ar lefel uwch reolwyr ac aelodau annibynnol, a cheir cylch gorchwyl clir i Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yr Ymddiriedolaeth. Byddai llais clinigol mwy cyson ar y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu ymhellach.

**68.** Mae Caldicott yn rhoi set o argymhellion ac egwyddorion i'r Ymddiriedolaeth i helpu i sicrhau bod gwybodaeth sy'n fodd i adnabod person (yn cynnwys gwybodaeth am gleifion, staff a defnyddwyr gwasanaethau) yn cael ei diogelu'n ddigonol. Mae asesiad Caldicott blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn darparu lefel dda o sicrwydd ynglŷn â'r risgiau llywodraethu gwybodaeth ar draws holl feysydd yr Ymddiriedolaeth. Yr asesiad yw'r sylfaen i unrhyw waith angenrheidiol ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn monitro sut y caiff y cynlluniau gwella eu rhoi ar waith.

## Mae fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau, fel bod modd cyflawni newidiadau ar raddfa fwy

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau'r ffordd y mae'n rheoli ac yn cyflawni newid ar raddfa fwy tra mae newidiadau pellach ar waith mewn meysydd adnoddau allweddol i helpu i gyflawni'r Cynllun Tymor-Canolig Integredig

**69.** Mae fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig wedi adolygu sut mae nifer o elfennau allweddol sy'n galluogi defnyddio adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus yn cael eu rheoli. Mae'r gwaith hwn wedi dangos bod yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau'r ffordd y mae'n rheoli ac yn cyflawni newid ar raddfa fwy tra mae newidiadau pellach ar waith mewn meysydd adnoddau allweddol i helpu i gyflawni'r Cynllun Tymor-Canolig Integredig. Crynhoir y casgliadau allweddol yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Asesiad Strwythuredig – elfennau allweddol i alluogi defnydd effeithiol o adnoddau

| Mater | Crynodeb o'r casgliadau |
|---|---|
| Capasiti i reoli newid | Mae yna arweinyddiaeth strategol, atebolrwydd a dirprwyo cryf gyda gweledigaeth glir a Chynllun Tymor-Canolig Integredig y cytunwyd arno. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i gryfhau'r capasiti, y gallu a'r prosesau rheoli newid ymhellach er mwyn cefnogi a monitro'r gwaith cyflawni. |
| Cynllunio'r gweithlu | Mae'r bylchau mewn capasiti a gallu yn cael eu cau ond mae angen rhagor o waith ar feysydd â blaenoriaeth yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu a datblygu sefydliadol. Mae angen rhoi sylw i rai materion cydymffurfio yn ymwneud â'r gweithlu, megis: lefelau isel o lofnodi cynlluniau swyddi'n derfynol; cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol; a lefelau absenoldeb salwch. |
| Ystadau ac asedau | Mae capasiti ystadau cryfach yn gefn wrth wynebu'r sialensiau mawr sydd i ddod yn cynnwys blaenoriaethu gwariant cyfalaf tymor byr ac ymdrin â rheoli asbestos. Er nad yw'r gwaith ar y strategaeth ystadau wedi'i gwblhau eto, yn y cyfamser mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu'i harolwg cyflwr. Bydd yr uchelgais tymor hir i ddatblygu canolfan ganser newydd yn darparu fframwaith clir ar gyfer blaenoriaethu yn y cyfamser; os cymeradwyir hyn bydd angen buddsoddi'n sylweddol yn yr ystâd ac mewn capasiti cynllunio arall tra bydd y rhaglen yn cael ei datblygu. |
| Gweithio mewn partneriaeth | Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ar brosiectau penodol ac mae'n datblygu partneriaethau mwy rhagweithiol i gefnogi'i huchelgais i newid y gwasanaethau canser a gwaed. |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid | Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n dda â phartneriaid a rhoddwyr ac mae'i strategaeth ymgysylltu newydd yn darparu adnoddau ychwanegol er mwyn helpu i gyflawni'r Cynllun Tymor-Canolig Integredig. |
| Defnydd o dechnoleg | Mae f'adolygiad diagnostig o'r capasiti TG yn dal ar waith. |

### Mae codio clinigol wedi cael ei gwblhau'n brydlon yn y gorffennol, ond mae amryw o wendidau yn y trefniadau a'r broses yn effeithio ar gywirdeb y data clinigol wedi'i godio ac mae adnoddau cyfyngedig yn golygu bod episodau sydd heb eu codio yn cronni bellach ac ar gynnydd

**70.** Proffil isel sydd i godio clinigol yn yr Ymddiriedolaeth ac mae angen ystyried y lefel fuddsoddi bresennol i sicrhau ei bod yn cynnal mwy o ffocws ar ansawdd a chywirdeb.

**71.** Effeithir ar y gallu i ddarparu codio clinigol safonol gan faterion yn ymwneud â'r ffordd y caiff gwybodaeth am gleifion ei dal, y capasiti rheoli a goruchwylio, lefelau staffio, a diffyg prosesau archwilio.

**72.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn dechrau gwneud mwy o ddefnydd o ddata codio clinigol ac roedd y gwaith hwnnw'n cyrraedd safonau Llywodraeth Cymru yn 2012-13, ond mae nifer yr episodau heb eu codio sy'n ôl-gronni yn cynyddu. Er bod y cywirdeb yn dda at ei gilydd, canfuwyd gwallau am episodau cleifion preswyl, ac mae angen egluro goblygiadau hynny yn glir ar draws y sefydliad.

### Mae gan Wasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre drefniadau digonol ar gyfer parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb TGCh, er bod angen goruchwylio a chyd-drefnu'r trefniadau profi ac adrodd yn well ar lefel yr Ymddiriedolaeth

**73.** Mae'r trefniadau ar gyfer adfer ar ôl trychineb TGCh a pharhad busnes yn ddigonol yn gyffredinol yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru, er bod rhai gwendidau o ran profi'r cynlluniau.

**74.** Yn y 12 mis diwethaf, mae Canolfan Ganser Felindre wedi cryfhau diogelwch ffisegol, cyfnerthedd a'r gallu adfer ac mae'i chynlluniau'n ddigonol erbyn hyn, er y gellid gwella cyfnerthedd y rhwydwaith a'r ffordd yr ymdrinnir â phrofi.

**75.** Mae parodrwydd clir i rannu adnoddau ac arferion da rhwng Gwasanaeth Gwaed Cymru a Chanolfan Ganser Felindre ym maes adfer ar ôl trychineb a rheoli parhad busnes, ond mae lle o hyd i wella'r cyd-drefnu a'r trosolwg ar y trefniadau hyn ar lefel yr Ymddiriedolaeth.

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi sylw i argymhellion sydd wedi deillio o waith archwilio blaenorol

**76.** Yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed fel rhan o'm raglen, leol ac o dan fandad cenedlaethol, o waith archwilio, canfu fy ngwaith:

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn erbyn argymhellion a wnaed mewn prosiectau yr ymgymerwyd â nhw rhwng 2012 a 2014.
- Cyflwynwyd y ddau adroddiad ar godio clinigol ac adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes i'r Pwyllgor Archwilio yn gyntaf ac yna, ynghyd ag ymateb y rheolwyr, i gyfarfod dilynol o'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fonitro a chyflawni argymhellion yr adroddiadau hyn.

- Cyflwynwyd yr adolygiad o brofiad defnyddwyr i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol ac i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Rhoddwyd argymhellion yr adolygiad hwn ar waith fel rhan o waith parhaus yr Ymddiriedolaeth i saernïo'r ffordd y mae'n ymgysylltu â defnyddwyr.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i sicrhau uniondeb a phriodoldeb yn ei busnes o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys sicrwydd archwilio mewnol 'sylweddol' o ran cronfeydd elusennol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau manwl ac yn cynnal trosolwg dda o'r mecanweithiau yn ymwneud â chroesawu, twyll cownteri a hawliadau a cholledion.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers f’Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2014 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2014 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol | Hydref 2014 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Tachwedd 2014 |
| **Adroddiadau Archwilio Perfformiad** | |
| Adolygiad Codio Clinigol | Ebrill 2014 |
| Adolygiad o’r Trefniadau Parhad Busnes ac Adfer ar Ôl Trychineb TGCh | Mehefin 2014 |
| Asesiad Strwythuredig 2014: cyflwyniad i’r Bwrdd Rheoli Gweithredol | Tachwedd 2014 |
| Asesiad Strwythuredig 2014: cyflwyniad i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth | Tachwedd 2014 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2014 | Ebrill 2014 |

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt hefyd yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrfiedig |
|---|---|
| Adolygiad Diagnostig TGCh | Chwefror 2015 |
| Iechyd a Lles Staff | Mawrth 2015 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2014 ffi archwilio arfaethedig o £200,690 (heb gynnwys TAW). Mae f'amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith fod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

Roedd y ffi archwilio am y gwaith archwilio a wnaed ar y gwasanaethau a rennir sy'n cael eu darparu i'r Ymddiriedolaeth gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn £3,664, ac mae'r swm hwn wedi'i gynnwys yn y ffi a nodir uchod.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio arwyddocaol

Nododd f'Amlinelliad o Waith Archwilio 2014 y risgiau archwilio ariannol arwyddocaol ar gyfer 2014. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai'r rheolwyr wrthwneud mesurau rheoli yn bresennol ym mhob man. Oherwydd y gallai hynny ddigwydd mewn ffordd nad oes modd ei rhagweld, caiff ei hystyried yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodolrwydd cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod tuedd;<br>• gwerthuso sail resymegol unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i'r busnes arferol. | Adolygodd a phrofodd fy nhîm archwilio y meysydd hyn fel rhan o'r gwaith archwilio (barn) ac ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau perthnasol. |
| Mae risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll ym maes adnabod refeniw ac mae felly'n cael ei thrin fel risg arwyddocaol [ISA 240.26-27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn gwneud gwaith i sicrhau bod y refeniw a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn gyflawn a chywir, drwy gynnal adolygiad dadansoddol rhagfynegi lle mae hynny'n briodol. | Adolygodd a phrofodd fy nhîm archwilio y meysydd hyn fel rhan o'r gwaith archwilio (barn) ac ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau perthnasol. |
| Mae risg na fydd yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio ag ISA 27 *Datganiadau Ariannol Cyfunol ac Ar Wahân*. | Bydd fy nhîm archwilio yn trafod gofynion cyfrifyddu ISA 27 gyda swyddogion yr Ymddiriedolaeth i sicrhau eu bod yn deall y gofynion ac yn cysylltu â thîm archwilio Llywodraeth Cymru i egluro a chytuno ar y gofynion ar gyfer 2013-14. | Adolygodd a phrofodd fy nhîm archwilio sut mae IAS27 yn cael ei gymhwyso fel rhan o'm gwaith archwilio (barn) a daeth i'r casgliad fod yr Ymddiriedolaeth wedi cydymffurfio ag IAS27. |

| Risg archwilio arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae angen trefniadau llywodraethu ariannol cadarn er mwyn i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod gweithdrefnau a threfniadau ar waith i reoli ei chyllid yn unol â'r canllawiau yn llawlyfr e-lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal dau sefydliad mawr – Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Bydd yn rhaid i Swyddog Atebol yr Ymddiriedolaeth gael lefelau boddhaol o sicrwydd gan swyddogion atebol y ddau sefydliad hyn a gynhelir cyn y gellir llofnodi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol i sicrhau bod trefniadau llywodraethu ariannol priodol yn eu lle i gyrraedd amcanion, cyflawni gwelliannau, cynnal uniondeb ac osgoi gwrthdaro buddiannau. | Adolygodd fy nhîm archwilio y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a daeth i'r casgliad ei fod yn unol â'n gwybodaeth a'n profiad ni o'r Ymddiriedolaeth. |
| Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb am y system bwrsariaethau myfyrwyr, sydd wedi cynyddu'i gwariant o £50 miliwn i £131 miliwn. | Bydd fy nhîm archwilio yn sicrhau bod y gwariant ychwanegol arwyddocaol a'r incwm yn gysylltiedig â hynny yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y datganiadau ariannol a'u bod yn cael eu cefnogi gan nodiadau datgelu priodol. | Adolygodd a phrofodd fy nhîm archwilio y meysydd hyn fel rhan o'r gwaith archwilio (barn) ac ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau perthnasol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk